Heddlu Dyfed-Powys

Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd 2025

Hyder y Cyhoedd a Bodlonrwydd Dioddefwyr

67.3% **Hyder cyffredinol yn Heddlu Dyfed-Powys**
(Cyfartaledd cenedlaethol 66.9%)
Ffynhonnell: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr

Gweithio gyda'r wasg i hysbysu'r cyhoedd
Prosesu dros **800** o ymholiadau gan y cyfryngau bob chwarter.

999

Un o'r **4 heddlu gorau** yng Nghymru a Lloegr o ran cyflymder ateb galwadau 999/101 yn ystod haf 2025

Bodlonrwydd Dioddefwyr Cam-drin Domestig
(% o ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n fodlon gyda'r gwasanaeth)

- **74%** yn fodlon gyda'u cysylltiad cyntaf gyda'r heddlu.
- **94.2%** yn fodlon y gwrandawyd arnynt.
- **92.7%** yn fodlon iddynt gael eu trin yn deg.
- **75%** yn cytuno eu bod wedi derbyn y gwasanaeth roeddent yn ei ddisgwyl.

Fe wnaethom gynnal **4,779** arolwg cymunedol i adnabod mannau lle ceir achosion mynych o ymddygiad gwrthgymdeithasol, a arweiniodd at:

8,000 awr o batrolau gweladwy ychwanegol

41% **o ostyngiad** mewn digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol

Cyllido'r Heddlu

Cyflawnwyd dros £15 miliwn o arbedion costau ers 2020.

Gweithlu
Cynnydd yn y praesept a Gwarant Plismona Bro'n cyllido **+17** o swyddogion ymateb a **+33** o swyddogion bro i'r rheng flaen.

Fflyd
Rydyn ni'n cyflawni ein targed o sicrhau bod 50% o'n holl gerbydau'n **drydan/hybrid** erbyn 2029.

Cynaliadwyedd
Cyfanswm arbedion trydan o **£340k.** Cynhyrchwyd **25 megawat** o drydan drwy baneli solar.

Ystadau
Mae cyfuno safleoedd a rhenti ystadau i wasanaethau brys eraill wedi cynhyrchu tua **£2M** ac wedi arbed tua **£764 mil.**

Technoleg
Mabwysiadwyd **Awtomatiaeth Proses Robotig** gan nifer o adrannau, gan gynyddu ein heffeithiolrwydd.

Cyllido
Fe wnaethom gyflawni cyllideb mantoledig ar gyfer 2025-26, gyda diolch i arbedion o **£2.8M**

Gweithlu

- Mae canran y staff sy'n gadael yr heddlu y 5ed isaf yng Nghymru a Lloegr, sef 5.9%.
- Cyflwynwyd Rhaglen Fynediad Cwnstabliaid yr Heddlu i wella cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i'r rhai hynny sy'n hyfforddi.
- Mae cefnogaeth iechyd meddwl nawr yn cynnig opsiynau therapi i gefnogi swyddogion a staff sy'n gwella ar ôl cysylltiad â thrawma.
- Dangosodd canlyniadau arolwg llesiant bod yr heddlu'n sgorio'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ar holl gwestiynau'r arolwg.

Arweinyddiaeth ac Ymgysylltu

- Y chweched heddlu'n unig yn genedlaethol i gael ei achredu i ddarparu hyfforddiant Arweinyddiaeth yn fewnol, gan alluogi arweinyddion i gefnogi diwylliant, cyfathrebu, a llywio newid cymhleth.
- Cyflwynwyd hyfforddiant Rheoli Newid i Ymarferwyr yn 2025 i gefnogi arweinwyr i gyflwyno newid yn well.
- Rydym yn mabwysiadu amgylchfyd lle mae ymgysylltu ddwy ffordd rhwng arweinwyr a'r gweithlu nawr yn rhan mwy arwyddocaol o'r ffordd yr ydym yn gweithredu, ac mae adborth yn dangos bod hyn yn gwella diwylliant, a phrofiad pobl yn y gwaith.

Gweithgarwch Gweithredol

Rydym wedi cefnogi **digwyddiadau sylweddol** fel Sioe Frenhinol Cymru, IRONMAN Cymru, GŴyl y Gelli, a Chymal Prydain Rali'r Byd.

Yn 2025, atebodd ein **Canolfan Gyfathrebu** dros **60,000** o alwadau 999 gydag amser ateb cyfartalog o **5.12** eiliad yn unig.

Cydgymorth i heddluoedd eraill y DU.

Cynyddu'r defnydd o **dechnoleg droniau** i gefnogi plismona gweithredol.

Cydweithrediadau

Mae **Y Gofal Iawn, Y Person Iawn** yn canolbwyntio ar ddarparu'r ymateb cywir i alwadau iechyd meddwl. Mae ei gyflwyno wedi arwain at effeithlonrwydd sy'n cyfateb i arbed amcangyfrif o **8,000** awr o oriau'r heddlu - sydd gwerth tua **£132,488** o ran arian.

CYD-UNED ARFAU TANIO JOINT FIREARMS UNIT

TARIAN ROCU | RCCU

COUNTER TERRORISM POLICING CYMRU